Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 337 (Cymru) - 11 Ionawr 2023**

## Deddf Etholiadau: canllaw ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

I ychwanegu at Fwletin 333, rydym bellach wedi diweddaru ein canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar ddirprwyon brys i adlewyrchu'r darpariaethau dirprwy brys newydd sy'n ymwneud ag ID pleidleiswyr.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi diweddaru ein hadnodd Cwestiynau Cyffredin i gynnwys llinellau i'w defnyddio gyda'r cyhoedd wrth ymateb i ymholiadau ar brosesau ymgeisio'r Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr a Dogfen Etholwr Dienw.

Wrth baratoi ar gyfer y rheoliadau sy'n dod i rym, roeddem hefyd eisiau tynnu eich sylw at ein canllawiau ar hysbysu etholwyr dienw presennol am y gofyniad i gael Dogfen Etholwr Dienw i allu pleidleisio'n bersonol yn etholiadau Senedd y DU a CHTh.

Mae Rheoliad 26 o Reoliadau Adnabod Pleidleiswyr 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i chi hysbysu'r holl etholwyr dienw cymwys presennol ar eich cofrestr o'r gofyniad newydd i gael Dogfen Etholwr Dienw o fewn dau fis ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Mae ein canllawiau yn nodi'r camau y mae angen i chi eu cymryd i sicrhau bod etholwyr dienw yn ymwybodol o'r gofyniad newydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch ag infowales@electoralcommission.org.uk .


Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**


© Y Comisiwn Etholiadol 2023


Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys


**Deddf Etholiadau: canllaw ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol**

Gwybodaeth a dolen i ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a dolen i'n hadnodd Cwestiynau Cyffredin diweddaraf.


**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**


**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**